OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1100

## Rheoliadau Meysydd Tref a Phentref (Datganiadau Perchnogion Tir) (Cymru) (Rhif 2) 2018

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr awdurdod" ("*the authority*") yw'r awdurdod cofrestru tiroedd comin;

ystyr "cofrestr" ("*register*") yw'r gofrestr y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei chadw o dan adran 15B(1) o Ddeddf 2006 mewn cysylltiad â mapiau a datganiadau a adneuir o dan adran 15A o'r Ddeddf honno;

ystyr "datganiad" ("*statement*") yw datganiad o dan adran 15A(1) o Ddeddf 2006;

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Tiroedd Comin 2006;

mae i "hysbysiad adneuo" ("*notice of deposit*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(3)(b);

ystyr "perchennog perthnasol" ("*relevant owner*") yw'r perchennog sy'n adneuo datganiad;

ystyr "tir perthnasol" ("*relevant land*") yw'r tir y mae'r datganiad o dan sylw yn ymwneud ag ef.